# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(233)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys am amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer mis Hydref sy'n dangos mai dim ond 55.5% o ymatebion brys i alwadau categori A (bygythiad difrifol i fywyd) a gyrhaeddodd y safle o fewn wyth munud? EAQ(4)0524(HSS)

**3 Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) (60 munud)**
**NDM5637 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Medi 2014.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 19 Tachwedd 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**4 Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (60 munud)**
**NDM5628 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Gosodwyd y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 15 Gorffennaf 2014.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 14 Tachwedd 2014.

**Dogfennau Ategol**

Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5638 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol Cymru i dreftadaeth genedlaethol Cymru.

2. Yn croesawu'r Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ffydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r gydnabyddiaeth bod gan adeiladau crefyddol rôl o ran denu ymwelwyr i Gymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i greu cofrestr o adeiladau crefyddol pwysicaf Cymru fel y gallant gael eu diogelu'n briodol ar gyfer y dyfodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio a gweithredu strategaeth integredig i hyrwyddo llwybrau twristiaeth ffydd megis y Ffordd Sistersaidd a denu mwy o ymwelwyr i fannau addoli yng Nghymru. 1.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pwysigrwydd adeiladau crefyddol yn cael ei ymgorffori o fewn y Bil Treftadaeth.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5635 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cŵn Tywys Cymru: rhyddid i symud i bobl ddall a rhannol ddall yng Nghymru.

I godi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cŵn Tywys Cymru yng Nghymru a cheisio barn Llywodraeth Cymru ynghylch beth arall y gellir ei wneud i gefnogi pobl sydd wedi colli eu golwg.

**8 Dadl Fer – Gohiriwyd o 19 Tachwedd 2014 (30 munud)**
**NDM5629 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Pobl hŷn a gwaith: cydnabod cyfraniad pobl hŷn yn y gweithlu ledled Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Tachwedd 2014 i'w hateb ar 26 Tachwedd 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau? OAQ(4)0229(NR)

**2. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(4)0224(NR)

**3. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod cwmnïau glo brig yn adfer y tir ar ôl cwblhau'r gwaith? OAQ(4)0220(NR)

**4. Elin Jones (Ceredigion):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddiogelu a chynyddu stociau sewin yn ein hafonydd? OAQ(4)0233(NR)**W**

**5. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau ymgynghoriad EIDCymru? OAQ(4)0228(NR)**W**

**6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynhyrchu ynni? OAQ(4)0225(NR)

**7. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod bywyd gwyllt yng Nghymru? OAQ(4)0223(NR)

**8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â threchu tlodi? OAQ(4)0226(NR)

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithdrefnau cyfathrebu brys ar gyfer achosion iechyd anifeiliaid? OAQ(4)0232(NR)**R**

**10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatblygu prosiectau ynni cymunedol adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)0230(NR)

**11. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i atal llifogydd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0218 (NR)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r darpariaethau presennol ar gyfer gorfodi trwyddedu morol yng Nghymru? OAQ(4)0227(NR)

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith o fonitro hen weithfeydd mwyngloddio? OAQ(4)0221(NR)

**14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ansawdd dŵr ymdrochi yn Nhrefdraeth, Sir Benfro? OAQ(4)0236(NR)**W**

**15. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i adolygiad o nodyn cyngor technegol (TAN) 8? OAQ(4)0235(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith diwygio lles yn Nhorfaen? OAQ(4)0260(CTP)

**2. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cysylltiad rhwng materion cydraddoldeb a thlodi? OAQ(4)0258(CTP)

**3. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael â thlodi yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0257(CTP)

**4. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0263 (CTP)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau a gynhaliwyd gyda datblygwyr tai ynghylch y ddarpariaeth o dai fforddiadwy? OAQ(4)0265(CTP)

**6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y data monitro diweddaraf ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Dechrau'n Deg? OAQ(4)0255(CTP)

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o gymunedau y nodwyd y dylent gael cyllid drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf cychwynnol sydd wedi cael eu codi allan o amddifadedd? OAQ(4)0254(CTP)

**8. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â chymunedau ffydd? OAQ(4)0252(CTP)

**9. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl awdurdodau lleol yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o blant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar? OAQ(4)0256(CTP)

**10. Alun Ffred Jones (Arfon):** Beth yw asesiad y Gweinidog o lwyddiant y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0250(CTP)**W**

**11. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)0259(CTP)**W**

**12. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi trafnidiaeth yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(4)0249(CTP)

**13. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berthynas Llywodraeth Cymru gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig a ffydd yng Nghymru? OAQ(4)0261(CTP)

**14. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Dechrau'n Deg? OAQ(4)0251(CTP)

**15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am undebau credyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0247(CTP)